# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 01-16 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Ionawr 2016

DRAFT

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

DDRAFFT

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddSafonau@cynulliad.cymru

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 01-16 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Ionawr 2016

DRAFFT

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

---

### Aelodau y Pwyllgor



**Mick Antoniw (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Llyr Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Mark Isherwood**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru

---

Roedd John Griffiths yn bresennol fel Aelod arall ar ran Mick Antoniw ar 9 Rhagfyr o dan Reol Sefydlog 22.5.



**John Griffiths**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

Ymddiswyddodd Mick Antoniw fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar 11 Rhagfyr 2015, yn unol Rheol Sefydlog 22.4 ni fydd dirprwy yn bresennol ar ei ran yn y cyfarfod ar 12 Ionawr 2016.

DRAFT

# Cynnwys

Casgliad ac Argymhelliad .......... 5
1. Cyflwyniad .......... 6
2. Ystyried y gŵyn .......... 7
Atodiad A .......... 9

DDRAFFT

DRAFT

## Casgliad ac Argymhelliad

**Casgliad y Pwyllgor:** Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi'u torri gan Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC, oherwydd iddynt fethu â chofrestru buddiant yn unol â Rheol Sefydlog 2. (Tudalen 7)

**Argymhelliad y Pwyllgor:** Penderfyniad unfryd y Pwyllgor yw y dylid argymell i'r Cynulliad, yn unol â pharagraff 7.11(iii) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. (Tudalen 8)

DRAFFT

# 1. Cyflwyniad

1. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> "mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau ...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."[2]

2. Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Cynulliad yn unol â'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad[3] ("y Weithdrefn") a Rheol Sefydlog 22.9 ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed yn erbyn Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC.

3. Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd") ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion am y gŵyn a chasgliadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a'r hyn a ystyriwyd wrth lunio argymhelliad y Pwyllgor.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 22
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 22(i)
[3] Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad

DRAFT

## 2. Ystyried y gŵyn

5. Roedd y gŵyn yn honni bod yr Aelodau dan sylw wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 5 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n dweud:

> "Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru'r holl fuddiannau perthnasol a nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2 yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, er mwyn nodi'n glir unrhyw fuddiannau y gellir eu hystyried yn rhai a fyddai'n dylanwadu ar eu gweithredoedd."[4]

6. Yn yr achos hwn, roedd y gŵyn yn ymwneud â phenodiad yr Aelodau dan sylw yn Gadeiryddion ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan (y PMRh) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn y gorffennol a'r ffaith nad oedd y naill Aelod na'r llall wedi cofrestru'r penodiad gyda'r Cofrestrydd.

7. Cyfarfu'r Pwyllgor ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015 i drafod adroddiad y Comisiynydd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys digon o wybodaeth i fod yn sail i'w drafodaethau, ac nad oedd angen ceisio rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar.

8. Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith eto ar 12 Ionawr 2016 er mwyn cytuno ar ei adroddiad ynghylch y gŵyn hon.

**Y broses o drafod penderfyniad y Pwyllgor**

9. Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelodau dan sylw Reol Sefydlog 22.2(i), ac roedd y Pwyllgor yn cydnabod hefyd y gallai'r achos penodol hwn o dorri rheolau fod yn gyfystyr â throsedd o dan adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[5]

10. Wrth ystyried a dorrwyd rheolau, adolygodd y Pwyllgor y wybodaeth yn adroddiad y Comisiynydd, gan nodi barn y Comisiynydd fod 'achos clir o dorri amodau' gan y ddau Aelod.

**Casgliad y Pwyllgor - Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi'u torri gan Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC,**

---

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
[5] Deddf Llywodraeth Cymru 2006

DRAFT

**oherwydd iddynt fethu â chofrestru buddiant yn unol â Rheol Sefydlog 2.**

**Argymhelliad y Pwyllgor - Cosbau**

11. Wrth ystyried ei argymhelliad, nododd y Pwyllgor fod gwybodaeth am y penodiadau hyn ar gael yn gyhoeddus.

12. Nododd y Pwyllgor hefyd i'r ddau Aelod gydnabod y dylai'r ffaith iddynt gael eu penodi'n Gadeiryddion y PMRh fod wedi cael ei chofrestru.

13. Mae achos o dorri rheolau gan unrhyw Aelod Cynulliad yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos gonestrwydd ac arweiniad yn eu gweithredoedd.

14. Fodd bynnag, er ei fod yn cydnabod difrifoldeb yr achos hwn o dorri'r rheolau, mae'r Pwyllgor yn derbyn nad oedd y naill Aelod na'r llall yn cuddio'r wybodaeth yn fwriadol a bod y wybodaeth honno ar gael yn gyhoeddus.

**Argymhelliad y Pwyllgor - Penderfyniad unfryd y Pwyllgor yw y dylid argymell i'r Cynulliad, yn unol â pharagraff 7.11(iii) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.**

15. Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelodau dan sylw, a chawsant wybod hefyd am eu hawl i apelio o dan adran 8 o'r Weithdrefn.

16. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

DRAFT

## Atodiad A

# CYFRINACHOL

**Gan:** Gerard Elias QC, y Comisiynydd Safonau
**At:** Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL
## Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC

**Y gŵyn**

1. Mewn llythyr gan Glerc y Cynulliad Cenedlaethol dyddiedig 3 Tachwedd 2015, cefais gais am gyngor mewn perthynas ag achos posibl o ddiffyg cydymffurfio â rheolau'r Cynulliad ar fuddiannau Aelodau.

2. I ddechrau, roedd gwybodaeth wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i ateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar 23 Hydref 2015 i gwestiwn ysgrifenedig gan Andrew R. T. Davies AC ar 15 Hydref yn dweud bod Jenny Rathbone AC wedi bod yn Gadeirydd ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan (y PMRh) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop a bod tâl wedi'i roi am gyflawni'r rôl. Ar ôl ymchwilio ymhellach, gwelwyd bod Mark Drakeford AC wedi cyflawni rôl debyg cyn Jenny Rathbone AC.

3. Gan fod y wybodaeth hon yn gyhoeddus, penderfynais ymdrin â'r mater fel cwyn ar y sail bod Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac, yn benodol, paragraff 5 sy'n darparu fel a ganlyn (ac roedd yn darparu felly ar yr adegau perthnasol at ddibenion y gŵyn):

   ***Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru'r holl fuddiannau perthnasol a nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2 yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, er mwyn nodi'n glir unrhyw fuddiannau y gellir eu hystyried yn rhai a fyddai'n dylanwadu ar eu gweithredoedd.***

4. Ar yr olwg gyntaf, roedd yn ymddangos bod Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC, yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, wedi eu

DRAFT

penodi'n Gadeiryddion ar y PMRh ac nad oedd y naill na'r llall ohonynt wedi cofrestru'r fath fuddiant gyda'r Cofrestrydd. Felly, roeddwn yn fodlon bod y gŵyn yn dderbyniadwy gan fod gofynion paragraff 3.1 (i)-(vi) o'r Weithdrefn berthnasol ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ("y Weithdrefn") wedi'u bodloni. Yn unol â hynny, symudais ymlaen at y cam ymchwilio ffurfiol.

**Ymchwiliad Ffurfiol y Comisiynydd**

5. Gofynnais am y wybodaeth a ganlyn ac fe'i darparwyd:
    - Enwau Aelodau'r Cynulliad a oedd wedi'u penodi'n Gadeiryddion ar y PMRh yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a dyddiadau eu cyfnodau yn y swydd;
    - Y tâl a dderbyniodd pob Aelod;
    - Manylion am gofrestru'r fath fuddiant gan unrhyw Gadeirydd a benodwyd i'r fath swydd.
    - Sylwadau Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC.

**Y ffeithiau a ganfuwyd gan y Comisiynydd**

6. Cadarnhawyd y ffeithiau perthnasol a ganlyn:

(i) Mae'n ofynnol i Gadeirydd y PMRh gofrestru manylion o'r fath yn unol â Rheol Sefydlog 2 o Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol,
- o dan Atodiad 5(ii) "...*swydd... y mae'r Aelod... yn cael tâl amdanynt" a / neu*
- o dan *Atodiad 5(x) "gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod... ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru."*

(ii) Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad hyd yma, mae pedwar Aelod wedi'i benodi'n Gadeirydd ar y PMRh, sef:

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AC | Mai 2011 - Mawrth 2013 |
| Ken Skates AC | Ebrill 2013 - Mehefin 2013 |
| Jenny Rathbone AC | Gorffennaf 2013 - Hydref 2015 |
| Mick Antoniw AC | Hydref 2015 - |



DRAFT

(iii) Ni chofnododd dau o ddeiliad swydd Cadeirydd y PMRh fanylion eu penodiad gyda'r Cofrestrydd fel sy'n ofynnol, sef Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC.

(iv) Roedd yr atodiad i lythyrau penodi Mark Drakeford AC a Jenny Rathbone AC yn cynnwys y paragraffau a ganlyn:

*"**Remuneration***
*In line with existing policy and procedures you will be entitled to a daily rate of £198 (exclusive of travel and subsistence costs) for between 10 and 12 days per year. This will cover your attendance at All-Wales PMC meetings, preparatory work and other agreed days as required.*

*As an Assembly Member you will already be aware that you will need to liaise with the appropriate officials in the National Assembly for Wales to register these additional payments".*

(v) Dyma'r taliadau y mae'r ddau Aelod wedi eu cael hyd yma, gan gynnwys ffioedd dyddiol, taliadau yswiriant gwladol y cyflogwr, teithio a chynhaliaeth:

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AC | Cyfanswm o £1289.42 |
| Jenny Rathbone AC | Cyfanswm o £5233.76 |

(vi) Mae swydd Cadeirydd y PMRh yn swydd gyhoeddus; mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn gyhoeddus fel arfer a byddai manylion ynghylch taliadau'r aelodau ar gael i unrhyw un sy'n ceisio'r wybodaeth honno.

**Sylwadau'r Aelodau**

7. **Cydnabu Mark Drakeford AC** yn ysgrifenedig y dylai manylion ei benodiad yn Gadeirydd y PMRh fod wedi cael eu cofrestru. Ychwanegodd:

*"Of course, my occupation of that post was an entirely public matter, and 'declared', for example, on my own website and in the biographical notes which I supplied at that time."*
Dywedodd mai camgymeriad anfwriadol ar ei ran ef oedd methu â chofrestru.

8. **Cydnabu Jenny Rathbone AC** yn ysgrifenedig y dylai manylion ei phenodiad yn Gadeirydd y PMRh fod wedi cael eu cofrestru.

Ysgrifennodd ataf i ddweud mai camgymeriad didwyll ydoedd, gan ychwanegu, *"I have always declared that position when relevant in any Committee or Plenary meeting where the potential for conflict of interest might have arisen".*

9. Rwy'n derbyn yn llwyr, yn y ddau achos, mai esgeulustod oedd y rheswm am fethu â chofrestru'r penodiad ac nid unrhyw ymgais fwriadol i guddio'r wybodaeth. At hynny, rwyf wedi fy modloni bod y ddau Aelod, pan oeddent yn Gadeirydd y PMRh, wedi rhannu'r wybodaeth ynghylch y penodiad yn eang a'i bod yn wybodaeth gyhoeddus.

**Ystyriaethau ychwanegol**

10. Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, gallai fod yn drosedd o dan adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i Aelod gymryd rhan ym musnes y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 2. Fodd bynnag, yn unol ag adroddiad Pwyllgor Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gofrestru a datgan buddiannau Aelodau ym mis Gorffennaf 2014, mae'r gwaith o ystyried a yw'n briodol cynnal ymchwiliad troseddol i achosion o'r fath, gyda chaniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, yn nwylo'r Comisiynydd Safonau yn y lle cyntaf.

11. Fe'i cytunwyd gyda'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a Phrif Erlynydd y Goron y dylai'r Comisiynydd, wrth arfer y disgresiwn hwn, ystyried yn bennaf y cwestiwn: a fyddai dwyn achos troseddol, o dan holl amgylchiadau'r sefyllfa benodol, er budd y cyhoedd? Nid dyma'r unig ystyriaeth, ond mae'n ystyriaeth bwysig.

12. Yn yr achos hwn, gan fy mod yn gwbl fodlon mai'r rheswm am fethu â chofrestru oedd esgeulustod yn hytrach nac ymgais fwriadol i guddio'r wybodaeth, a bod y manylion pwysig a ddylai fod wedi cael eu cofrestru yn hysbys i'r cyhoedd i bob pwrpas, rwyf wedi dod i'r casgliad na fyddai cyfeirio'r mater hwn i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus er budd y cyhoedd.

**Casgliadau**

**13. Rwyf wedi fy modloni bod achos clir o dorri amodau Paragraff 3 (a) o'r Cod Ymddygiad gan y ddau Aelod dan sylw, drwy fethu â chofrestru buddiant yn unol ag atodiad 5 i Reol Sefydlog 2.**

DRAFT

Felly, mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gyfrifol am ymdrin â'r ddau o dan Reol Sefydlog 22.2.

**Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion**

14. Rwy'n cadarnhau:

- Bod yr Aelodau dan sylw a Chlerc y Cynulliad wedi cael copi drafft o'm hadroddiad terfynol ac nid oeddent am nodi unrhyw wallau ffeithiol ynddo.
- Gofynnwyd i bob un a gafodd copi drafft o'r adroddiad barchu ei gyfrinachedd tan fod y Pwyllgor Safonau wedi gorffen ystyried y cwynion.

**Amrywiol**

15. Rwy'n cadarnhau bod y ddau Aelod wedi rhoi caniatâd i'r mater hwn gael ei gyflwyno mewn un adroddiad i'r Pwyllgor Safonau.

16. At hynny, mae'n briodol nodi i'r ddau Aelod ymateb ar unwaith i'm hymchwiliad ac i'r ddau gydnabod eu hesgeulustod yn ddiamod.

Gerard Elias QC
30.11.2015